Clinig Adolygu dros y Ffôn Canser yr Ysgyfaint dan Arweiniad Nyrs

Clinig y Frest,
Ysbyty Sant Gwynllyw

Yn ddiweddar, cawsoch apwyntiad yn Ysbyty Sant Gwynllyw, Ysbyty Brenhinol Gwent neu Ysbyty Felindre. Mae'r arbenigwr neu nyrs a gyfarfu â chi ar y pryd wedi gofyn i chi gael apwyntiad adolygu dros y ffôn gyda'r Nyrsus Arbenigol ar Ganser yr Ysgyfaint.

Yn amgaeedig gyda'r daflen wybodaeth hon fe fydd mwy na thebyg ffurflen gais am belydr-X o'r frest (oni bai bod hon wedi'i rhoi i chi ar y pryd neu eich bod wedi cael scan CT yn ddiweddar)



A wnewch chi fynd i'ch ysbyty leol (mae manylion ar gefn y ffurflen pelydr-X) 7-10 diwrnod cyn eich apwyntiad.

Bydd ymgynghorydd yn edrych ar y pelydr-X ar ôl i chi gael yr ymgynghoriad dros y ffôn a bydd y nyrs arbenigol yn trafod hyn ymhellach gyda chi.

Beth ddylwn i drafod gyda'r nyrs?
Byddwch wedi cael gwybod gan yr ysbyty am amser a dyddiad yr adolygiad dros y ffôn. Gwnewch yn siŵr eich bod naill ai gartref neu yn gallu ffonio o ffôn symudol gyda rhywfaint o breifatrwydd gan y byddwch yn trafod eich iechyd diweddar ac unrhyw bryderon sydd gennych.

Wrth baratoi ar gyfer eich ymgynghoriad dros y ffôn dylech ystyried a ydych wedi cael unrhyw symptomau newydd o ran anadlu, wedi gweld newid yn eich archwaeth am fwyd, neu yn eich lefelau o ynni.

Byddwn hefyd yn gofyn rhai cwestiynau eraill i chi ac mae'n bosib ein bod wedi anfon ffurflen Asesiad o Anghenion Holistaidd i chi i'w chwblhau – byddwn yn trafod honno hefyd.

Os oes unrhyw bryderon o ganlyniad i'r pelydr-X ar eich brest, neu symptomau byddwn yn trafod apwyntiadau addas ac/neu unrhyw ymchwiliadau eraill.

Mae'n bosib y byddwn yn anfon holiadur profiad claf i werthuso eich cysylltiad gyda'r gwasanaeth. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw adborth neu bryderon peidiwch oedi rhag cysylltu â ni.

Rhifau ffôn cyswllt defnyddiol:

Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau cyn eich apwyntiad, cysylltwch â'r aelodau staff canlynol:

Tracey Davies, Cymorth Gweinyddol Canser yr Ysgyfaint:
01633 - 656149 er mwyn newid dyddiad / amser eich apwyntiad

Nyrsus Arbenigol: Helen Howison, Sam Williams a
Rebecca Weston-Thomas ar gyfer ymholiadau clinigol:
Rhif Ffôn: 01633 – 656149 neu 01633 238449

Dr Ian Williamson
Julie Walsh - Ysgrifennyddes: 01633 – 238196

Dr Alina Ionescu
Michelle Hatch – Ysgrifennyddes : 01633 – 656011

Caroline Dalton, Cydlynydd Clinig:- 01633 – 656227

Gofal Hospis Dewi Sant: 01633 – 851051

Tenovus: 0808 808 1010

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Clinig y Frest, Ysbyty Sant Gwynllyw
129 Stow Hill, Casnewydd
NP20 4GA

http://www.wales.nhs.uk/siteplus/866/home

Grŵp Cymorth Misol Canser yr Ysgyfaint

Bob mis yn Theatr y Congress yng Nghwmbran mae grŵp o gleifion yn mynychu ein grŵp cymorth.

Mae nyrsus arbenigol yn cefnogi'r cyfarfod hwn.

Mae therapïau amgen (tylino, ymlacio, reiki) yn digwydd yn y cyfarfodydd hyn.

Does dim angen i chi ddweud wrthym ymlaen llaw eich bod yn dod.

Dyddiad ac Amser: Dydd Mercher 1af bob mis am
11.00am ¯ 1:00pm

Lleoliad: Theatr y Congress, canol y dref, Cwmbrân

Te a Choffi ar gael.

Mae'r cleifion sy'n dod yn cael cysur o'r cyswllt anffurfiol gyda'u nyrs ac yn mwynhau cyfarfod â chleifion eraill.

Rydym hefyd yn trefnu tripiau blynyddol ac yn cymryd rhan mewn codi arian i'r grwp.

Gobeithio y gwelwn chi yno!

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".